Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad (CA (3) 10-10)

Dyddiad: 25 Mawrth 2010
Amser: 9.00am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 25 Mawrth 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, William Graham AC, Rhodri Morgan AC ac Alun Davies AC. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

CA417 - Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 7 Mawrth 2010. Fe'u gosodwyd ar 9 Mawrth 2010. Yn dod i rym ar 12 Ebrill 2010

CA420 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 4 Mawrth 2010. Fe'u gosodwyd ar 10 Mawrth 2010. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

CA422 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Mawrth 2010. Fe'u gosodwyd ar 11 Mawrth 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010

CA423 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Mawrth 2010. Fe'u gosodwyd ar 11 Mawrth 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010

Nododd y Pwyllgor bod y Rheoliadau hyn yn cynnwys pwyntiau adrodd posibl o ran rhinweddau o dan Reol Sefydlog 15.3(ii), ond gan fod CA429 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010 (ar agenda'r cyfarfod a gynhelir ar 22 Ebrill 2010) yn dirymu'r offeryn statudol hwn, ni wnaeth

y Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa gyffredinol o ran y ddeddfwriaeth hon a deddfwriaeth gysylltiedig yn parhau i fod yn aneglur (roedd y ddeddfwriaeth yn cyfleu penderfyniad unfrydol gan Lywodraeth y DU i ddirymu cytundeb dwyochrog ynghylch darpariaethau gofal iechyd ag Ynys Manaw) felly penderfynodd y Pwyllgor ysgrifennu at y Gweinidog gan ofyn am eglurhad o safbwynt Llywodraeth y Cynulliad.

Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2 a 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn Negyddol)

CA418 - Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 4 Mawrth 2010. Fe'u gosodwyd ar 10 Mawrth 2010. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 2

CA421 - Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Mawrth 2010. Fe'u gosodwyd ar 11 Mawrth 2010. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

CA424 - Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Mawrth 2010. Fe'u gosodwyd ar 12 Mawrth 2010. Yn dod i rym ar 2 Ebrill 2010

CA425 - Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Mawrth 2010. Fe'u gosodwyd ar 12 Mawrth 2010. Yn dod i rym ar 9 Ebrill 2010

Cytunodd y Pwyllgor ar adroddiadau ar y Rheoliadau hyn o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3. Gellir eu gweld yn Atodiadau 1- 3.

Unrhyw fusnes arall

Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i'r datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y panel a oedd yn cynnwys Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

CA425 - Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2010

Cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad (gweler Atodiad 4) ar y Rheoliadau hyn o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3(ii) (gan eu bod "o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu…yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad."). Nodwyd bod y ffordd y caiff y defnydd o'r Gymraeg ei drin mewn deddfwriaeth ar y pwnc hwn wedi bod yn destun adroddiadau anffafriol gan y Pwyllgor hwn a'i rhagflaenydd ar ddau achlysur (SLC 67 a SLC313). O gofio natur barhaus y mater hwn, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2010, cytunodd y Pwyllgor i wahodd Gwenda Thomas AC, y Gweinidog cyfrifol i'r Pwyllgor i helpu yn y gwaith o graffu ar y ddeddfwriaeth.

Er nad oedd y Gweinidog yn gallu bod yn bresennol, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Keith Blake, aelod o'r Tîm Gorfodi Cyffredinol; Rob Wilkins, Arweinydd y Tîm Gorfodi Cyffredinol yn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru a Mark Partridge, Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, i gyfarfod yn y dyfodol i egluro rhai materion ymhellach.

Gohebiaeth y Pwyllgor

Ymateb y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 (CA397)

Nododd y Pwyllgor ymateb Leighton Andrews, Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru, i adroddiad y Pwyllgor ar CA397 – Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

Ymateb Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, i lythyr y Cadeirydd ynghylch CA390 - Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2010

Nododd y Pwyllgor ymateb Elin Jones AM, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, i lythyr y Cadeirydd ynghylch CA390 - Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2010. Nododd y Pwyllgor eglurhad y Gweinidog bod pysgotwyr yn dibynnu ar systemau GPS cyfrifiadurol i ganfod eu lleoliad. Serch hynny, penderfynwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol i dynnu ei sylw at bwysigrwydd defnyddio mapiau mewn offerynnau statudol fel y bo'n briodol.

Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y darpariaethau is-ddeddfwriaethol sylweddol yn y Mesur arfaethedig. Penderfynodd y Pwyllgor wahodd Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, i roi tystiolaeth yn y cyfarfod a gynhelir ar 20 Mai 2010.

Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Nododd y Pwyllgor y darpariaethau is-ddeddfwriaethol sylweddol yn y Mesur arfaethedig. Penderfynodd y Pwyllgor wahodd Edwina Hart MBE AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i roi tystiolaeth yn y cyfarfod a gynhelir ar 27 Mai 2010.

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gafwyd hyd yma ynghylch yr Ymchwiliad i'r datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

25 Mawrth 2010

Atodiad 1

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

(CA(3)-10-10)

Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Teitl: Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn gwneud darpariaeth o ran cyfrifon ac archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru y mae'n ofynnol i'w cyfrifon gael eu harchwilio yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ("Deddf 2004") (ac eithrio byrddau prawf lleol). Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Mawrth 2010 ac felly maent yn effeithiol o ran cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009/2010 yn amodol ar eithriad ynghylch cytundeb cyfrinachedd ar gyfer cyflogeion hŷn a swyddogion heddlu perthnasol. Mae'r diwygiadau yn cynnwys gofyniad newydd i ddatgelu manylion tâl unigol y cyflogeion hŷn a'r swyddogion heddlu perthnasol, newidiadau i'r broses o lofnodi a chymeradwyo cyfrifon, a gofynion ychwanegol o ran datgelu tâl swyddogion hŷn.

Craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

i) Mae rheoliad 2 (4) (b) o'r Rheoliadau yn cynnwys cyfeiriad gwallus at reoliad 7A (3) pan ddylai gyfeirio at reoliad 7A (4), gan mai rheoliad 7A (4) yw'r rheoliad cywir sy'n cynnwys y diffiniadau ar gyfer "cyflogai hŷn", "swyddog heddlu perthnasol" a "tâl" (Rheol Sefydlog 15.2 (vi) gwaith drafftio diffygiol neu'n methu â bodloni gofynion statudol).

ii) Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau yn y fersiwn Saesneg yn cyfeirio at deitl rheoliad 7A fel "statement of remuneration" pan teitl cywir rheoliad 7A yw "declaration of remuneration". (Rheol Sefydlog 15.2 (vi) gwaith drafftio diffygiol neu'n methu â bodloni gofynion statudol).

Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar yr adeg hon.

Janet Ryder AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

25 Mawrth 2010

Ymateb y Llywodraeth

Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010

“Mae’r Llywodraeth yn derbyn bod dau gamgymeriad wedi eu gwneud ond mae’n fodlon y byddai’n briodol i drin y camgymeriadau fel mân wallau teipograffyddol / clerigol y gellid eu cywiro wrth gyhoeddi’r Rheoliadau”.

Atodiad 2

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

(CA(3)-10-10)

CA421

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Teitl: Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn creu un tribiwnlys prisio ar gyfer Cymru ("y TPC"). Mae'r TPC yn cymryd lle'r pedwar tribiwnlys a'r gwasanaeth tribiwnlys prisio Cymru blaenorol.

Craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2, bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn.

1. Mae testun Saesneg rheoliad 42(5)(a) yn cyfeirio at "decision that was wrongly made as a result of clerical **error**". Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "penderfyniad a wnaed yn anghywir oherwydd **penderfyniad** clerigol". Mae'r cyd-destun yn awgrymu mai'r testun Saesneg sy'n gywir. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Craffu ar rinweddau

O dan Reol Sefydlog 15.3, ni chaiff y Cynulliad ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

25 Mawrth 2010

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010

"Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod gwall yn y testun Cymraeg o'r Rheoliadau hyn fel y mae'r adroddiad yn ei nodi, ond y mae'n fodlon y byddai'n briodol trin y gwall fel mân wall teipograffyddol/clerigol y gellid ei gywiro pan gaiff y Rheoliadau eu cyhoeddi."

Atodiad 3

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

(CA(3)-10-10)

CA424

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Teitl: Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010

Gweithdrefn: Negyddol

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a Deddf Plant 1989. Maent yn darparu ar gyfer adolygu gan banel annibynnol mewn tri math o achos.

Craffu Technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn.

1. Yn y testun Saesneg, mae'r adran galluogi yn datgan y caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud gan ddefnyddio pwerau penodol sy'n cynnwys adran 118 (1) a (5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Fodd bynnag, mae'r testun Cymraeg yn datgan bod y pwerau a ddefnyddir i wneud y Rheoliadau hyn yn cynnwys adran 118 (1) a (5) i (8) o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Ceir anghysondeb rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg yn y pwerau galluogi y dibynnir arnynt. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

Craffu ar ragoriaethau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

25 Mawrth 2010

Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:

Craffu technegol

Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010

Cytunwn â'r pwynt adrodd. Mae'r testun Saesneg yn enwi'r pwerau cywir. Mae gwall teipograffyddol yn y testun Cymraeg wedi arwain at ddyfynnu adrannau 118(1) a (5) ac (8) yn lle dyfynnu adrannau 118(1) a (5) a (7) fel y dylasid. Cywirir y gwall wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

Atodiad 4

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

(CA(3)-10-10)

CA425

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Teitl: Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2010

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (O.S. 2007/3165) (Cy.276), ("y prif Reoliadau"). Mae'r Rheoliadau hyn -

(a) yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi, o ran Cymru, Rheoliadau y Comisiwn (EU) Rhif 115/2010 sy'n pennu'r amodau ar gyfer defnyddio alwmnia actifedig i dynnu fflworid o ddŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon (OJ No. L 37, 10.2.2010 p.13); ac

(b) yn gweithredu, o ran Cymru, Erthygl 7.1 i 3 a 6 o Gyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl (OJ No. L330, 3.11.98, p.32).

Mae'r Rheoliadau hyn, hefyd, yn diwygio ymhellach y prif Reoliadau mewn cysylltiad â defnyddio disgrifiadau Cymraeg.

Craffu Technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

1. Mae rheoliad 10(2) yn cyfeirio at newid term Cymraeg diwygiedig am derm Cymraeg blaenorol yn nhestun Cymraeg darpariaethau amrywiol yn y prif Reoliadau. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad at reoliad 8(2)(d) yn y testun Cymraeg presennol yn anghywir gan fod y geiriad dan sylw yn ymddangos yn rheoliad 8(2)(ch). Mae'r cyfeiriad dilynol at reoliad 10(2)(d) yn anghywir gan nad yw rheoliad 10(2) wedi'i rannu'n is-baragraffau. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

Craffu ar rinweddau

O dan Reol Sefydlog 15.3 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

2. O dan Reol Sefydlog 15.3(ii) gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad."

Mae'r ffordd y caiff yr iaith Gymraeg ei thrin mewn deddfwriaeth ar y pwnc hwn wedi bod yn destun adroddiadau anffafriol ddwywaith o'r blaen gan y Pwyllgor hwn a'i ragflaenydd (SLC 67 a SLC313).

3. Yn SLC67 cyflwynwyd yr adroddiad canlynol - "Ym mharagraff (b) y diffiniad o "ddwr yfed" yn rheoliad 2(1), mae'r testun Cymraeg yn darparu ar gyfer labelu yn Saesneg neu yn Gymraeg, tra bod y testun Saesneg yn darparu ar gyfer labelu yn Saesneg yn unig. Mae anghysondebau tebyg yn digwydd yn rheoliadau 8, 9, 10, 11, 12, 14. Gan fod rheoliad 20 yn creu tramgwyddau mewn perthynas â'r rheoliadau hyn, bydd y defnydd o'r termau Cymraeg penodol heb y rhai Saesneg cyfatebol yn dramgwydd yn ôl y testun Saesneg, ond nid yn ôl y testun Cymraeg. Mae'n hanfodol bod yr anghysondeb yn cael ei gywiro cyn gynted â phosibl. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]".

4. Yn SLC313 cyflwynwyd yr adroddiad canlynol - "Rhoddir Rheoliad 5(2) yn lle rheoliad newydd, sef rheoliad 8(1)(h), yn fersiwn Gymraeg y prif Reoliadau. Mae'r ddarpariaeth hon yn gwahardd rhag defnyddio disgrifiadau heblaw am y rhai a nodir ar gyfer dŵr mwynol naturiol. Caiff y disgrifiadau eu nodi yn Saesneg yn unig yn y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. O ganlyniad, byddai defnyddio term Cymraeg cyfatebol yn torri rheoliad 8, a byddai person sy'n defnyddio disgrifiad o'r fath yn agored i gael ei erlyn ac i ddiryw o hyd at £5,000 o dan reoliad 20 y prif Reoliadau."

5. Ar yr achlysur hwnnw, ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn - "Mae'r Llywodraeth yn nodi'r sylwadau am y rheoliad 8(1)(f) newydd, ond gan fod y Rheoliadau hyn wedi'u gwneud yn uniongyrchol o un o Gyfarwyddebau'r UE sydd wedi'i hail-lunio, mae'n credu ei bod yn bosibl o dan Gyfraith yr UE ddefnyddio'r iaith Saesneg yn unig wrth ymdrin â gofynion labelu, ond nad yw'n bosibl defnyddio'r iaith Gymraeg yn unig. Gan fod modd barnu bod y wybodaeth yn y disgrifiad yn berthynol i iechyd, mae'n bwysig sicrhau bod cymaint o ddefnyddwyr â phosibl (yn ogystal â swyddogion gorfodi) yn deall y wybodaeth honno. Yn ychwanegol, ni fyddai cynnwys yr hyn sy'n cyfateb yn Gymraeg i'r derminoleg orfodol Saesneg yn rhoi ateb clir, o ran labeli bwyd, i'r defnyddiwr. Gan hynny, nid oes angen diwygio'r Rheoliadau hyn."

6. Mae Paragraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau presennol yn nodi'r rhyddid a roddir i aelod-wladwriaethau gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd i ganiatáu defnyddio ieithoedd eraill. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â defnyddio'r rhyddid hwnnw drwy ganiatáu defnyddio termau Cymraeg. Yn hytrach,

fel yr esboniwyd eisoes, mae wedi gwahardd, yn rheoliad 8 o'r prif Reoliadau, defnyddio unrhyw ddisgrifiad ac eithrio'r term Saesneg penodedig. Yn wir, mae'r rheoliadau hyn yn mynd ymhellach na hynny drwy ddileu'r termau Cymraeg o destun Cymraeg rheoliad 8, ac mewn mannau eraill yn y rheoliadau lle mae termau Cymraeg yn cael eu defnyddio i ddisgrifio mathau o ddŵr.

7. Ar ben hynny, maent yn ailddatgan rheoliad 20 sy'n ei gwneud yn drosedd i fynd yn groes i reoliad 8. Felly, nid yw'r Pwyllgor yn derbyn y datganiad yn y Memorandwm Esboniadol y gellir defnyddio labelu dwyieithog hefyd gan fod hyn yn groes i ddarpariaethau penodol y Rheoliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ei gwneud yn glir bod rhyddid yn bodoli, ond mae'r Llywodraeth, unwaith eto, wedi dewis mynnu gwaharddiad clir rhag defnyddio unrhyw derm ac eithrio'r termau Saesneg penodedig. Byddai wedi bod yn rhwydd cynnwys darpariaeth i ganiatáu defnyddio termau Cymraeg cyfatebol yn ychwanegol at y termau Saesneg penodedig, ond mae'r Llywodraeth wedi dewis peidio â gwneud hynny er gwaethaf yr adroddiadau anffafriol blaenorol gan y Pwyllgor hwn.

8. Nodwyd yr ymateb a gafwyd isod gan y Llywodraeth, a chafwyd tystiolaeth lafar gan swyddogion. Er bod y mater wedi cael ei godi dair blynedd yn ôl, roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn bod deddfwriaeth yn dal i gael ei gwneud a oedd yn rhwystro defnyddio'r Gymraeg, a bod trafodaethau i gael eu cynnal gyda'r Comisiwn i geisio cael eglurhad ar ddarpariaeth mewn Cyfarwyddeb o'r flwyddyn 2000. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ragor o dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog ar ôl toriad y Pasg a gofyn iddi gyflwyno rheoliadau gwneud diwygiadau cyn gynted â phosibl.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

25 Mawrth 2010

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Craffu Technegol

Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2010

Fel y nodwyd gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, mae'r cyfeiriadau at "8(2)(d)" a "10(2)(d)" sy'n ymddangos yn rheoliad 10(2) o'r testunau Saesneg a Chymraeg o'r rheoliadau yn anghywir. Cywirir y cyfeiriadau anghywir hyn wrth gyhoeddi'r rheoliadau i ymddangos fel "8(2)(ch)" a "10(2)" yn y drefn honno.

Craffu ar rinweddau

Ymateb i'r craffu ar sail rhagoriaeth o'r Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynon a Dŵr Yfed wedi'i botelu (Cymru) (Diwygio) 2010 gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

Fel y nodwyd yn y memorandwm esboniadol i'r Rheoliadau, polisi'r Asiantaeth Safonau Bwyd, o ran pob label ar fwyd, yw bod yn rhaid defnyddio'r Saesneg gan ei bod yn iaith swyddogol yn yr Undeb Ewropeaidd. **Caiff y cynhyrchydd bwyd ddefnyddio labeli dwyieithog hefyd**, os dyna ei ddewis, cyn belled nad yw hynny yn effeithio yn andwyol ar elfen Saesneg orfodol y label. Er hynny, mae peth amheuaeth a yw'r ddeddfwriaeth yn adlewyrchu hyn yn union.

Mae geiriad Erthygl 16 o'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2000/13/EU ar gyd-ddynesiad cyfreithiau Aelod-Wladwriaethau sy'n ymwneud â labelu, cyflwyno a hysbysebu deunyddiau bwyd, yn nodi nad oes rheswm dros wahardd nodi manylion labelu mewn nifer o ieithoedd cyn belled â'u bod yn cael eu rhoi yn iaith swyddogol berthnasol yr UE hefyd. Nid oes bwriad i wahardd defnyddio termau Cymraeg, ond yr ydym yn pryderu y gallai un dehongliad o Erthygl 16(2) a 16(3) (o'u darllen gyda'i gilydd) olygu na ellir defnyddio ond ieithoedd swyddogol yr UE. Nid yw'r Gymraeg yn un o'r ieithoedd hynny.

Er eglurder, ac yn sgil esboniad gan Gomisiwn yr UE, bydd swyddogion yn ystyried diwygio prif Reoliadau 2007 drwy ychwanegu, er enghraifft, reoliad "dal popeth" newydd i ddatgan yn glir nad oes dim yn rheoliadau 2007 a fydd yn gwahardd i'r manylion labelu gael eu nodi yn y Gymraeg (neu un unrhyw iaith arall). Bwriadwn ofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo'r diwygiad hwn er mwyn osgoi'r posibiliad o unrhyw achos torri cyfraith Ewropeaidd ac i sicrhau bod y diwygiad yn adlewyrchu barn y Comisiwn yn gywir. Rydym wedi dechrau'r broses a byddwn yn ei chwblhau cyn gynted ag y bo modd.